Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Porthcawl
# Neuadd Capel y Tabernacl
# 18 Fenton Place
# Porthcawl
# CF36 3DW

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:
Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**
**Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Porthcawl, sydd yn cwrdd mewn ystafell gymunedol yng nghapel Tabernacl, Porthcawl, yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r lleoliad yn agor am bedwar sesiwn yr wythnos rhwng 9.15 y bore a 1.10 y prynhawn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 plentyn ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed. Ychydig iawn o blant sy'n cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff amser llawn. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Ionawr 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2015 a gan Estyn ym mis Mawrth 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |
| | |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n gwella dysgu'r plant yn llwyddiannus
- disgwyliadau uchel yr ymarferwyr yn sicrhau heriau effeithiol a chyson ar gyfer y plant
- asesiadau trylwyr yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn nysgu plant unigol
- ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol a diwyd
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu llwyddiannus
- ymddiriedaeth amlwg rhwng y plant a'r oedolion, sy'n effeithio ar les y plant yn bwrpasol
- ardaloedd dysgu ac adnoddau yn ennyn diddordeb ac ysgogaeth y plant yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad er mwyn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- adnabyddiaeth gadarn gan yr arweinydd o gryfderau'r lleoliad a'r ardaloedd sydd angen eu gwella
- targedau pwrpasol a gweithredol sy'n symud y lleoliad ymlaen at welliannau pellach
- hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu'n fuddiol ar wella safonau'r plant
- defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth yn effeithio ar y ddarpariaeth yn gadarnhaol
- partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned eu hunain

A2 Creu gwell cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a’r ardal allanol

A3 Sicrhau bod arferion monitro, gwerthuso a rheoleiddio cyllid y pwyllgor rheoli yn drylwyr a chadarn

A4 Sicrhau bod y targedau yn y cynllun datblygu yn deillio’n uniongyrchol o’r broses hunanarfarnu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol i'r plant. Mae eu gwaith dyddiol yn adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol ac yn ymateb yn synhwyrol i anghenion y plant. Mae hyn yn creu ffocws iddynt wrth drefnu themâu a gweithgareddau ar sail anghenion pob plentyn. O ganlyniad, maent yn targedu diddordebau'r plant a'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol ac yn arbrofol yn bwrpasol, er enghraifft wrth goginio llysiau yn yr ardal gartref a chydweithio i beintio murlun lliwgar yn yr ardal allanol. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu'r plant yn ddysgwyr annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol, sy'n cyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Amlygir hyn wrth i blant ddewis rhwydi i godi gwlân cotwm o'r twb dŵr a'u defnydd o ficrosgop electronig i drafod nodweddion gweadau gwahanol. Mae gweithgareddau fel hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol at frwdfrydedd dyddiol y plant, wrth iddynt ganolbwyntio'n effeithiol ar heriau penodol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae gweithgareddau i hybu llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob ardal ddysgu fel cyfleoedd heriol i wneud marciau a defnyddio stampiau i greu patrymau. Mae gweithgareddau defnyddiol i arbrofi â chynhwysedd jygiau o wahanol feintiau a bwcedi o dywod, yn cefnogi dealluswydd y plant o gyfaint a phwysau yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu tebyg yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn nysgu'r plant.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau priodol o'r iaith. Maent yn gefnogol wrth annog y plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn herio a holi'r plant yn fedrus yn yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant o'r iaith yn datblygu'n addas.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru’n llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a phobi cacennau traddodiadol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol. Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, gliniaduron, llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a’u rheolaeth o gyfarpar technolegol.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gadael iddynt yrru beiciau a sgwteri’n fywiog yn yr ardal allanol. Maent yn annog y plant i arbrofi gyda sisyrnau wrth dorri siapiau allan o does i efelychu lindys ac adeiladu moronen i fwydo cwningen ddychmygus.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae’r profiadau’n cynnwys ymweliadau i lan y môr, busnesau’r dref, y swyddfa bost, fferm leol a’r orsaf dân. Nid oes ymwelwyr yn ymweld â’r lleoliad ar hyn o bryd, felly nid yw’r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn drylwyr. Maent yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plentyn ac yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu awyrgylch ysgogol i’r plant. Mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio’r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu hysgogi a’u cymell i’r eithaf. O ganlyniad, maent yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd wedi eu harwain gan blant a’r tasgau sydd dan ofal oedolion. Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol, er enghraifft trwy ddefnyddio cafnau i arbrofi â chyflymder ceir ac wrth baratoi pryd o fwyd trwy dorri a chymysgu tatws a mintys. Maent yn deall y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd eang i blant ddysgu trwy chwarae yn effeithiol, yn enwedig yn yr ardal allanol.

Mae’r ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn wrth drafod lliwiau a siapiau ar fwrdd sialc ac wrth drafod y tywydd mewn sesiynau torfol. Anogir y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid oes cyfle i’r plant symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan i’r adeilad. Mae hyn yn cyfyngu eu cyfleoedd i brofi’r holl feysydd dysgu yn annibynnol ac i gydweithio ag eraill ar wahanol dasgau.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu geirfa a phatrymau iaith y Gymraeg yn llwyddiannus ac yn atgyfnerthu hyn yn gyson yn ystod sesiynau. O ganlyniad, mae deallusrwydd y plant o’r iaith yn cynyddu’n addas. Mae dyfalbarhad yr ymarferwyr ynglŷn â’r iaith yn sicrhau bod y plant yn deall gorchmynion a chaneuon syml yn briodol.

Mae’r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol defnyddiol ac yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain ar lafar trwy gydol y sesiwn yn llwyddiannus. Maent yn trafod yn synhwyrol yn ystod tasgau yr hyn sydd angen i’r plant ei wneud i wella’u

gwaith. Mae'r staff yn cofnodi gwerthusiadau yn dilyn sesiynau yn drylwyr a'u trafod yn ddyddiol. Mae'r trefniadau manwl a chyson hyn yn arwain at gynllunio tasgau uniongyrchol i dargedu anghenion y plant yn y dyfodol. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu'n bwrpasol ac effeithlon. Mae'r holl dystiolaeth yn cyfateb yn bwrpasol i ddeilliannau plant unigol wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant yn ystod yr amser trosglwyddo ar ddiwedd y sesiwn. Mae adroddiad cynhwysfawr ar bob un plentyn, gyda sylwadau perthnasol, ar gael i rieni ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio amserau torfol a sgyrsiau gan unigolion yn synhwyrol i ganolbwyntio ar deimladau ei gilydd. Drwy hyn, maent yn meithrin gwerthoedd fel gwirionedd, tegwch a pharch yn llwyddiannus.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad corfforol a'u lles. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae byrbrydau dyddiol yn cynnwys ffrwythau, llaeth a dŵr. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau yn bwysig at gynnal eu hiechyd.

Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau a dweud diolch yn ddyddiol. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i blant eistedd i wrando ar oedolyn a'i gilydd. Mae bron pob un plentyn yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau, trwy godi ffrwythau â gefel, a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, bwyd a nwyddau plastig. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn bwrpasol pan mae'r angen yn codi. Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau addas er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'r arweinydd yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ac yn eu defnyddio'n briodol i gefnogi unigolion. Er enghraifft, maent yn cofnodi anghenion dysgu plant yn ddiwyd pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn adolygu cynnydd y plant anghenus yn rheolaidd ac yn olrhain eu cynnydd yn drylwyr o'u mannau cychwyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy'n cydnabod unigolrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn adnabod anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff

yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol gyda thynerwch a chysondeb.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u cymhelliant brwdfrydig. Maent yn pwysleisio'n ddyddiol bod angen parchu ei gilydd a bod dewisiadau unigolion yn rhan o'u datblygiad personol. Maent yn dathlu amrywiaeth yn ein byd yn fuddiol. Mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wyliau fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd a Diwali, sy'n datblygu dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau amrywiol ein byd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, a thasgau ffocws i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau'n hygyrch i bob un o'r plant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd addas ar gyfer anghenion y plant. Mae'n ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol. Mae'r adeilad a'r defnydd creadigol o'r adnoddau allanol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i chwarae rôl, ymholi ac ymchwilio, gyrru beiciau a thyfu perlysiau a grug mewn basgedi ar y wal. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o gyfleusterau'r ardal leol i gyfoethogi'r dysgu, fel adnoddau'r dref a glan y môr.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn dilyn ei hapwyntiad diweddar, mae'r arweinydd wedi sicrhau bod arferion arweinyddiaeth yn dechrau gwreiddio'n briodol yn y lleoliad. Mae hi'n cymell ymarferwyr i greu newidiadau mewn ffyrdd cadarnhaol ac yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd ynglŷn â'r lleoliad, fel dirprwyo aelodau penodol o'r tîm i gefnogi plentyn unigol. Mae hyn yn effeithio'n dda ar welliannau i'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae'r arweinydd wedi dilyn canllawiau a chyngor yr awdurdod lleol ar sut i gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys. O ganlyniad, mae cyfeiriad cadarnhaol i'r gweithgareddau dyddiol ac addysgu'r ymarferwyr erbyn hyn.

Mewn amser byr, mae'r arweinydd wedi dechrau sefydlu cadernid yn y systemau arweinyddiaeth. Mae hi'n hyrwyddo a chynnal arferion i wella gwaith dyddiol y lleoliad yn gydwybodol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau newydd wedi cael digon o amser i wella elfennau hanfodol o'r rheolaeth, fel rôl y pwyllgor rheoli ac agweddau o effeithiolrwydd y cynllun gwella.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol ac yn bwrpasol. Mae hi'n diffinio cyfrifoldebau'r ymarferwyr yn glir er mwyn hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad. Caiff ymarferwyr hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, fel gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol. Nid oes gan y lleoliad drefniadau ar waith i oruchwylio ac arfarnu gwaith y staff.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd. Mae'r pwyllgor wedi dechrau creu arferion priodol, fel monitro'r cyllid a derbynebau a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r pwyllgor yn gefnogol ac yn sicrhau trylwyredd wrth reoli derbyniadau ariannol a gwariant dyddiol y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cynnal archwiliadau annibynnol yn flynyddol o wariant ac elw'r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu y lleoliad yn datblygu'n dda. Mae'r arweinydd, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn bodoli sydd wedi arwain at welliannau sylweddol i waith y lleoliad mewn amser byr. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r broses o gynllunio tasgau ffocws a gweithgareddau sy'n cyfoethogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn ystyried barnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gwelliannau amlwg wedi deillio o'r ystyriaethau hyn, sydd wedi gwella'r asesu dyddiol a thargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae cynllun gwella'r lleoliad yn nodi meysydd priodol ar gyfer gwella. Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun gwella bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Er bod prosesau cadarn yn eu lle, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylder ynglŷn â pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach a sut maent wedi llunio ambell darged penodol.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu yn rheolaidd ar eu cyngor. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i gyfrannu at arferion asesu a nodi mannau cychwyn perthnasol ar gyfer y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maent yn eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn yn hybu dysgu'r plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cefnogaeth fuddiol i'r lleoliad wrth gynnig am gyfarpar a grantiau perthnasol.

Mae cysylltiadau cadarnhaol ag ysgolion lleol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant yn bwrpasol. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'u hysgolion newydd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r partneriaethau cadarnhaol sy'n bodoli. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi trwy ddarparu dogfennaeth a hyfforddiant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill yn fuddiol. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf a datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cysylltiadau defnyddiol hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd wedi gwella pob agwedd ar waith y lleoliad yn llwyddiannus mewn amser byr drwy reoli staff ac adnoddau'n synhwyrol. Gyda hyfforddiant ac arweiniad pwrpasol, mae'n llwyddo i sicrhau bod ymarferwyr y lleoliad yn effeithio ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae systemau newydd y lleoliad yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithlon. O ganlyniad, mae diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn gydwybodol i gefnogi'r dysgu. Mae arferion a threfniadau dyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol a chadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu'n effeithiol, gan gynnwys ardal allanol effeithiol.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant drwy nodi cyfrifoldebau a graddfeydd amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol, sy'n cynnwys diweddaru adnoddau TGCh a sicrhau bod cloeon ar y giatiau allanol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd effaith gadarnhaol y ddarpariaeth, sy'n effeithio'n bositif ar ddeilliannau'r plant.

## Atodiad 1

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |